Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Pecyn cymorth rhaglen imiwneiddio feirws syncytiol anadlol (RSV) ar gyfer Ymarferwyr Gofal Iechyd



**Nod y ddogfen hon yw cefnogi ymarferwyr gofal iechyd i gynllunio eu rhaglen imiwneiddio RSV.**



## Pwyntiau allweddol

- Dwy raglen imiwneiddio RSV rheolaidd sydd ar gael drwy gydol y flwyddyn ar hyn o bryd:

✓ **Y rhaglen i oedolion hŷn ar gyfer:**

- Oedolion sy'n troi'n 75 oed (a ddylai gael eu gwahodd o fewn 12 wythnos ar ôl troi'n 75 oed).
- Pob oedolyn 75 oed a throsodd (fel rhan o raglen dal i fyny estynedig).
- Pob preswylydd cartref gofal oedolion hŷn, waeth beth fo'u hoedran.
- Darllenwch **Gwybodaeth ddiweddaraf am raglen frechu RSV 2026 | Llywodraeth Cymru** (safle allanol) am ragor o wybodaeth.

✓ **Y rhaglen brechu mamau i amddiffyn babanod**

- Dylid cynnig y rhaglen brechu mamau i amddiffyn babanod i bob menyw feichiog o 28 wythnos y beichiogrwydd ymlaen.
- Mae menywod beichiog yn parhau i fod yn gymwys i gael eu brechu hyd nes y cânt eu rhyddhau o'r gwasanaethau mamolaeth, er yr argymhellir brechu cynnar o 28 wythnos ymlaen.
- Dylid cynnig brechiad ym mhob beichiogrwydd i amddiffyn pob babi rhag RSV.

**✓ Ar gyfer y ddwy raglen**

- Sicrhewch fod staff sy'n rhoi'r imiwneiddiadau wedi cael hyfforddiant priodol ar weinyddu'r brechlyn RSV gan gynnwys asesu ymarferol.
- Tynnwch sylw at gleifion cymwys ar y system, os yn bosibl, i hyrwyddo brechu manteisgar.

## Y brechlyn

- Y brechlyn RSV a awdurdodwyd i'w ddefnyddio yn y rhaglenni oedolion hŷn a mamau yw brechlyn Abrysvo® RSV (Pfizer Limited).
- Mae brechlynnau ar gael i'w harchebu trwy godau ar wahân ar ImmForm ar gyfer y rhaglenni priodol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn archebu o'r stoc cywir. Anelwch at gael dim mwy na phythefnos o stoc i osgoi gwastraff.

  - Rydym yn annog brechwyr i wylio'r fideo ar sut i baratoi'r brechlyn cyn rhoi'r brechlyn RSV am y tro cyntaf: **Paratoad | Abrysvo®▼ (brechlyn feirws syncytiol anadlol) | PfizerPro UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)

  - Gwnewch yn siŵr bod unrhyw adweithiau niweidiol yn cael eu hadrodd drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn: **Cerdyn Melyn | Gwneud meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn fwy diogel** (safle allanol, Saesneg yn unig)

## Gwiriwch eich gwybodaeth: hyfforddiant a dysgu

- Darperir gwybodaeth am hyfforddiant imiwneiddio a setiau sleidiau rhaglen frechu RSV ar y **Dudalen Adnoddau Hyfforddi a Digwyddiadau**
- Os ydych newydd gofrestru i imiwneiddio bydd angen i chi gwblhau'r rhaglen Imiwneiddio ar gyfer imiwneiddwyr newydd, sydd ar gael yma: **e-Ddysgu-Imiwneiddio - Iechyd Cyhoeddus Cymru** ac **Atodiad A: Offeryn asesu cymhwysedd imiwneiddwyr** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Darllenwch **Feirws syncytiol anadlol : Llyfr Gwyrdd Pennod – GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Darllenwch **Rhaglen firws syncytiol anadlol (RSV) UKHSA: gwybodaeth i weithwyr gofal iechyd proffesiynol** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Darllenwch Gylchlythyrau Iechyd Cymru:

  - **Gwybodaeth ddiweddaraf am raglen frechu RSV 2026 (WHC/2025/053)** (safle allanol)

  - Darllenwch lythyr y Prif Swyddog Meddygol ar y brechlyn RSV: **Llythyr y Prif Swyddog Meddygol – Brechlyn RSV (Awst 2025) | Llywodraeth Cymru** (safle allanol, Saesneg yn unig)

  - **Gwybodaeth ddiweddaraf am raglen frechu RSV 2025 (WHC/2025/016)** (safle allanol)

  - **Cyflwyno rhaglen frechu RSV 2024 (WHC/2024/032)** (safle allanol)

- Rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda phawb sy'n ymwneud â'r rhaglen, gan gynnwys staff derbynfa sy'n trefnu apwyntiadau. Ystyriwch ddefnyddio'r setiau sleidiau RSV i gynnal sesiwn hyfforddi a gwybodaeth i gydweithwyr.

## Adnoddau clinigol ychwanegol

- **Cysylltiadau Byrddau Iechyd Cymru**
- **Cwestiynau Cyffredin (FAQs)** (Saesneg yn unig)
- **Datganiad Hyfforddiant RSV Iechyd Cyhoeddus Cymru**

## Y Fframwaith Cyfreithiol

- **Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion (PGDs) - Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru** (safle allanol). Sylwch nad yw'r templedi PGD cenedlaethol hyn yn gyfreithlon i'w defnyddio nes iddynt gael eu haddasu a'u hawdurdodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol.

## Deunyddiau cyfathrebu i gefnogi eich ymgyrch

Cymerwch olwg ar **Lyfrgell Asedau Iechyd Cyhoeddus Cymru (brandkitapp.com)** (bydd angen i chi gofrestru y tro cyntaf y byddwch yn defnyddio'r llyfrgell). Yma fe welwch adnoddau y gallwch eu lawrlwytho i gefnogi eich ymgyrch a'u dangos ar sgriniau mewn ystafelloedd aros ac ar wefannau.

# Archebu neu lawrlwytho adnoddau *am ddim*

I archebu adnoddau **am ddim** - fel taflenni gwybodaeth i gleifion - i gefnogi clinigau brechu, ewch i:
**Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Mae adnoddau i gleifion ar gael yma:
**Gwybodaeth am frechu feirws syncytiol anadlol (RSV) - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Mae adnoddau proffesiynol ar gael yma:
**Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru**










Sgania fi am ragor o wybodaeth ar RSV

**Atgoffwch gleifion bod y brechiad RSV yn ddiogel ac yn effeithiol a bydd yn helpu i gynnig amddiffyniad iddynt hwy a'u hanwyliaid.**



© Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru


## Order or download *free* resources

To order **Free** resources - such as patient information leaflets - to support vaccination clinics, visit:
**Health Information Resources - Public Health Wales**

Patient resources are available here:
**Respiratory syncytial virus (RSV) vaccination information - Public Health Wales**

Professional resources are available here:
**Respiratory syncytial virus (RSV) vaccination information for health professionals - Public Health Wales**







Scan me for more information on RSV

**Remind patients that the RSV vaccination is safe and effective and will help protect them and their loved ones.**


© Public Health Wales NHS Trust

✓ **For both programmes**

- Ensure staff delivering the immunisations have received appropriate training on the administration of RSV vaccination, including practical assessment.
- Highlight eligible patients on the system, if possible, to promote opportunistic vaccination.

## The vaccine

- The RSV vaccination authorised for use in the older adults and maternal programmes is Abrysvo® PreF RSV vaccine (Pfizer Limited).
- Vaccines are available to order via separate codes on ImmForm for the respective programmes. Please ensure you order from the correct stock. Aim to hold no more than two weeks' worth of stock to avoid waste.

  - Prior to administering the RSV vaccine for the first time, vaccinators are encouraged to watch a preparation video: **Preparation | Abrysvo®▼ (respiratory syncytial virus vaccine) | PfizerPro UK** (external site)

  - Ensure any adverse reactions are reported via the Yellow Card Scheme: **Yellow Card | Making medicines and medical devices safer** (external site)

## Check your knowledge: training and learning

- Immunisation training information and RSV vaccination programme slide sets are provided on the **Training Resources and Events page**
- If you are a registrant new to immunising, you will need to complete the Immunisation programme for new immunisers, available here: **Immunisation eLearning - Public Health Wales** and **Appendix A: Vaccinator competency assessment tool** (external site)
- Read the **Respiratory syncytial virus: the green book – GOV.UK** (external site)
- Read the **UKHSA respiratory syncytial virus (RSV) programme: information for healthcare professionals** (external site)

- Read the Welsh Health Circulars:

  - **Update on RSV vaccination programme 2026 (WHC/2025/053)** (external site)

  - Read the CMO letter on the RSV vaccine: **CMO letter - RSV Vaccine (August 2025) | Welsh Government** (external site)

  - **Update on RSV vaccination programme 2025 (WHC/2025/016)** (external site)

  - **Introduction of RSV vaccination programme 2024 (WHC/2024/032)** (external site)

- Share learning with all those involved in the programme, including reception staff booking appointments. Consider using the RSV slide sets to run a training and information session for colleagues.

## Additional clinical resources

- **Health Board vaccine team contacts**
- **Frequently Asked Questions (FAQs)**
- **PHW RSV Training statement**

## Legal framework

- **Patient Group Directions (PGDs) - Welsh Medicines Advice Service** (external site). Please note that these national PGD templates are not legal for use until adapted and authorised by the relevant Local Health Board.

## Communication materials to support your campaign

Take a look at **Public Health Wales Asset Library (brandkitapp.com)** (you will need to register the first time you use it). Here you will find resources to support your campaign that can be downloaded and used for waiting room TVs and websites.

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales



# Respiratory syncytial virus (RSV) immunisation programme toolkit for Healthcare Practitioners

**This document has been designed to support healthcare practitioners plan their RSV immunisation programme.**



## Key points

- There are currently two routine RSV immunisation programmes which are available year-round:

✓ **The older adults' programme for:**

- Adults turning 75 years of age (who should be invited within 12 weeks of turning 75).
- All adults aged 75 years and over (as part of an extended catch-up programme).
- All residents of care homes for older adults, regardless of age.
- Read the **Update on RSV vaccination programme 2026 | Welsh Government** (external site) for further information.

✓ **The maternal programme for infant protection**

- The maternal programme for infant protection should be offered to all pregnant women from 28 weeks' gestation.
- Pregnant women remain eligible for vaccination until discharge from maternity services, although early vaccination from 28 weeks is recommended.
- Vaccination should be offered in every pregnancy to protect each infant against RSV.

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg. This information is available in Welsh.